

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 230 (Cymru) - 25 Ionawr 2019

Ymateb i alwad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am Farn

Ym mis Tachwedd 2018 cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) [Galw am Farn](#) ar God Ymarfer ar ddefnyddio gwybodaeth bersonol ar gyfer ymgyrchoedd gwleidyddol.

Fe wnaethom [gyhoeddi ymateb](#) i'r Galw am Sylwadau cyn y dyddiad cau o 21 Rhagfyr 2018. Fe wnaeth ein hymateb ganolbwyntio ar ffocws ys ICO ar ddefnyddio data personol ar gyfer ymgyrch gwleidyddol, am amlygu rhai pwyntiau allweddol iddynt eu hystyried wrth iddynt ddatblygu'r Cod. Er enghraifft:

- Dylai'r Cod gynnal hawliau pleidleiswyr i gael eu data wedi'i amddiffyn, a gwybod sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio, a hawliau ymgyrchwyr i ddefnyddio peth data at ddibenion ymgyrchu.
- Dylai'r ICO fod yn glir ynghylch y niwed y mae'r Cod newydd yn mynd i'r afael â nhw, a sut bydd y Cod yn delio gyda nhw.
- Dylai'r Cod nodi diffiniad gweithgareddau ymgyrch gwleidyddol yn glir. Dylai'r ICO hefyd ystyried ehangu'r diffiniad tu hwnna i ymgyrchu gwleidyddol o ran etholiad neu refferendwm.
- Dylai cynnwys y Cod geisio ategu cyfraith etholiadol, ein Codau gwario arfaethedig i Bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr, a'n Cod Ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr.
- Cynigiodd y papur Galw am Farn y dylai Cod y dyfodol gynnwys defnyddio data personol o'r cofrestrau etholiadol. Ry'n ni gweld hyn fel cam pwysig fydd yn gwella tryloywder ar gyfer pleidleiswyr, ac yn credu y bydd ymgyrchwyr a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn elwa o fwy o eglurder ar sut y dylent roi gwybod i'r etholwyr o sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio. Ry'n ni am fwydo i mewn i'r agwedd honno o'r Cod wrth iddo gael ei ddatblygu.

Mae'r ICO yn bwriadu ymgynghori ar God arfaethedig yn ddiweddarach, y byddwn yn ymateb iddo ac rydym yn annog eraill i

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Ymateb y Comisiwn Etholiadol i alwad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am Farn

Gwybodaeth am a dolen i'n hymateb i God Ymarfer yr ICO ar gyfer defnyddio gwybodaeth bersonol ar gyfer ymgyrchwyr gwleidyddol.

Seminar y Comisiwn Etholiadol ar gynnal hyder mewn etholiadau a democratiaeth yn yr oes ddigidol

Atgoffa am y digwyddiad a sut i gadw'ch lle/

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorfennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'n cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol](#).

[Rhowch wybod i ni](#) am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael eu penodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk.

Ry'n ni'n anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r

wneud hefyd. Unwaith i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi byddwn yn rhoi gwybod i chi amdano - ac o sut i ymateb - mewn Bwletin yn y dyfodol.

Seminar y Comisiwn Etholiadol ar gynnal hyder mewn etholiadau a democratiaeth yn yr oes ddigidol

Fel amlygwyd ym [Mwletin 229](#), fel rhan o'n cyfres o seminarau ar ddemocratiaeth, byddwn yn cynnal seminar ar 20 Chwefror ar gynnal hyder mewn etholiadau a democratiaeth yn yr oes ddigidol.

Bydd Cadeirydd Comisiwn Etholiadol y DU, Syr John Holmes, yn trafod blaenoriaethau'r Comisiwn a'i bartneriaid yn 2019, ar adeg hanfodol bwysig i'n democratiaeth yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

Bydd y digwyddiad yn cynnwys croeso gan Elin Jones, AM, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sesiwn cwestiwn ac ateb wedi gadeirio gan Elan Closs Stephens CBE, Comisiynydd Etholiadol Cymru.

Bydd y seminar yn cael ei gynnal yn y Senedd am 18:30. Darperir lluniaeth a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael hefyd.

Gallwch gadw lle yn y digwyddiad drwy [Tocyn Cymru](#).

Caiff y digwyddiad ei noddi gan Elin Jones, AC, Llywydd.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru

Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2019

cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.comisiwnetholiadol.org.uk/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr yma mwyach, gallwch [ddad-danysgrifio](#) unrhyw bryd.